



Rhagfyr 2021

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr


Diolch i bawb a gyfrannodd a chefnogodd Bore Coffi Macmillan. Fe godon ni £440.00 tuag at yr elusen.

Yn ystod y tymor roeddem wedi croesawu Adam Coleman a Doug mewn i'r ysgol. Arweinion nhw ein gwasanaeth gyda neges bwysig Gristnogol i'r disgyblion.

Bydd llais y plentyn yn gryf unwaith eto eleni gydag aelodau newydd ein cynghorau. Rydyn ni'n gwerthfawrogi eu gwaith caled ac yn edrych mlaen at weld beth fydd eu syniadau am y flwyddyn i ddod.

Dathlodd y disgyblion a'r staff Ddiwrnod Shwmae ar y 15fed o Hydref, 2021!

Mae Diwrnod Shwmae yn gyfle gwych i gael hwyl a rhannu'r Gymraeg - yn y siop, canolfan hamdden, gwaith, ysgol, caeau chwarae a gyda'ch ffrindiau, ar-lein neu wyneb yn wyneb!. Gwisgodd y plant mewn lliwiau coch, gwyrdd a gwyn. Mwynheuodd pawb yn fawr iawn.



Dechreuodd y tymor rygbi a pêl-rwyd yn dda iawn. Fe wnaethon ni chwarae yn erbyn Ysgol Gynradd Llidiart, gyda enillodd y tîm rygbi y ddwy gêm, gyda 2 ddisgyblyn sgorio 3 chais yr un. Enillodd y disgyblion a gymerodd ran mewn pêl-rwyd un gêm a cholli un gêm.

Cafodd 4 o ddysgwyr blwyddyn 6 eu dewis i gynrychioli Tîm Rygbi ardal Pen-y-bont dan 11 oed.



Llongyfarchiadau a da iawn fechgyn!

Mae diwrnod Plant Mewn Angen yn ddiwrnod mae pawb yn mwynhau ac yn awyddus i ddathlu. Eleni gwisgodd y plant wisgoedd gwyllt a chefnogon ni Owain Wyn Evans gyda Drumathon. Bu pawb yn brysur wrthi'n drwmio, lliwio, torri a gludo lluniau o Pydsi a Blush. Ein cyfanswm ar ddiwedd y dydd oedd £500.00. Da iawn a diolch i bawb am gyfrannu.



Wythnos Gwrth-fwlio 2021: Un Gair Caredig

Cydlynir Wythnos Gwrth-fwlio yng Nghymru gan y Gynghrair Gwrth-fwlio ac fe'i cynhelir rhwng 15 a 19 Tachwedd 2021, y thema oedd Un Gair Caredig a Sanau Od.

Mae Diwrnod Sanau Od wedi'i gynllunio i fod yn hwyl! Mae'n gyfle i annog pobl i fynegi eu hunain a dathlu eu hunigoliaeth a'r hyn sy'n ein gwneud ni i gyd yn unigryw!



Cafodd Flynyddoedd 5 a 6 gyfle i gwrdd â Swyddog Rhanbarth Newydd yr Urdd. Croeso cynnes a phob lwc yn eich swydd newydd Jaques Mahé.



Roedd y Cyngor Ysgol a Hawliau yn awyddus i gefnogi dwy elusen leol dros y Nadolig sef 'Salvation Army' a 'Casglu Anrhegion i Blant ym Mhen-y-bont'. Gofynnwyd am roddion o anrhegion newydd i'w rhoi i blant yn ein hardal nad ydynt mor ffodus. Diolch i bawb a chyflwynodd anrheg tuag at yr elusennau.



Cwblhaodd blwyddyn chwech hyfforddiant lefel 1 hyfredded beicio, a bydd yn symud ymlaen i lefel 2 yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol. Mae Lefel 2 yn dysgu diogelwch i'r plant wrth feicio ar y ffyrdd.

Llongyfarchiadau i bawb ym mlwyddyn 6.



Awyrgylch Nadoligaidd yn y neuadd lle roedd y plant yn mwynhau cerddoriaeth a ginio Nadolig. Roedden nhw'n gyffrous iawn i dynnu'r craceri a dweud jôcs.



Roedd sypreis hyfryd yn aros yn y groto i'r plant. Canodd y plant amrywiaeth o ganeuon o'r cyngherddau Nadolig ac yn dweud wrth Siôn Corn beth yr hoffent ei gael ar gyfer y Nadolig. Atgoffwyd y plant gan Siôn Corn o bwysigrwydd y gair diolch a mae angen pob plentyn aros yn y gwely tan 8 o'r gloch 😊😊. Diolch i Siôn Corn am ymweld â Bro Ogwr a newyddion da iawn..... Daeth Buddy'r Elf o hyd i'w dad yn y groto heddiw!





December 2021

Ysgol Gymraeg Bro Oqwr

Thank you to everyone who contributed and supported the Macmillan Coffee Morning. We raised £ 440.00 for the charity.

During the term we welcomed Adam Coleman and Doug into the school. They led our assembly with an important Christian message to the pupils.

The voice of the child will be strong again this year with the new members of our councils. We appreciate their hard work and look forward to seeing what their ideas are for the coming year.

The pupils and staff celebrated 'Shwmae Day' on the 15th of October, 2021! 'Shwmae Day' is a great opportunity to have fun and share the Welsh language - in the shop, leisure center, work, school, playing fields and with your friends, online or in person! The children dressed in red, green and white. Everyone thoroughly enjoyed themselves.



The rugby and netball season started off very well. We played against Litchard Primary School, with the rugby team winning both games, with two pupils scoring three tries each. The pupils who participated in netball won one game and lost one match. Four year 6 learners were selected to represent the Bridgend District under 11's Rugby Team.



Congratulations and well done boys!

Children in Need is a day that everyone enjoys and eager to celebrate. This year the children wore wild costumes and we supported Owain Wyn Evans with Drumathon. Everyone has been busy drumming, coloring, cutting and pasting pictures of Pudssy and Blush. Our total at the end of the day was £ 500.00. Well done and thank you to everyone for contributing.



Anti-Bullying Week 2021: One Kind Word

Anti-Bullying Week in Wales is coordinated by the Anti-Bullying Alliance and took place from the 15th to the 19th of November 2021, the theme being One Kind Word and Odd Socks. Odd Sock Day is designed to be fun! It's an opportunity to encourage people to express themselves and celebrate their individuality and what makes us all unique!



Years 5 and 6 had the opportunity to meet the new Urdd Regional Officer. A warm welcome and good luck in your new job Jaques Mahé.



The School and Rights Council were keen to support two local charities over the Christmas period 'Salvation Army' and 'Collecting Gifts for Children in Bridgend'. We asked for gifts of new gifts to give to children in our less fortunate area. Thank you to everyone who donated to the charities.



Year six completed level 1 training in cycling proficiency and will progress to level 2 later in the school year. Level 2 teaches safety to the children when cycling on the roads. Congratulations to everyone in year 6.



A festive atmosphere in the hall where the children enjoyed music and Christmas lunch. They were extremely excited to pull the crackers and tell jokes.



A lovely surprise awaited in the grotto for the children. The children sang a variety of songs from the Christmas concerts and told Father Christmas what they would like for Christmas. The children were reminded by Father Christmas of the importance of the word thank you and that all children were to remain in bed until 8 o' clock. Thank you to Father Christmas for visiting Bro Ogwr and some incredibly good news.....Buddy the Elf found his daddy in the grotto today!

